Scroll down for English version

31/03/20

Annwyl Ddisgyblion a Rhieni / Gwarchodwyr,

Gobeithio bod pawb yn eich teulu yn iach o ystyried ein sefyllfa bresennol! Mae'n gyfnod hynod o bryderus ac ansicr i ni gyd, ond ga i'ch sicrhau ein bod ar gael fel ysgol i gefnogi'n disgyblion, ein rhieni a'r gymuned ehangach mewn unrhyw ffordd bosib – cysylltwch os gallwn helpu. Yn y cyfamser, hoffwn rannu rhai negeseuon gyda chi.

**LLES DISGYBLION:**
Mae'r athrawon mewn cyswllt wythnosol gyda phob un o'n disgyblion drwy e-bost neu drwy'n llwyfannau digidol, sef SMHW, Teams a dosbarthiadau Hwb. Mewn nifer o achosion, mae'r cyswllt yma yn amlach ac yn ddyddiol ble mae'r angen. Gwiriwch yr holiadur lles aeth allan i ddisgyblion ddoe ar SMHW. Os ydych yn teimlo yr hoffech drafod gyda'ch tiwtor neu eich 'oedolyn gofalgar' yn yr ysgol, plÎs cysylltwch. Mae croeso hefyd i rieni gysylltu gyda ni os oes unrhyw bryder gennych am les eich plentyn. Defnyddiwch e-bost yr ysgol isod, neu fy e-bost gwaith i: DaviesS456@hwbcymru.net

**CYMREICTOD:**
Un her i ni fel cymuned ysgol, heb gyswllt dyddiol, yw i gynnal lefelau Cymreictod ein disgyblion. Mae Miss Heledd Clarke yn rhannu her wythnosol, yn ogystal â chysylltiadau defnyddiol a diddorol ar gyfrif trydar Cymreictod yr ysgol @BYDIBryntawe – gwiriwch yn aml i gynnal eich Cymreictod. Beth am gynnal sgwrs wyneb i wyneb drwy'r Gymraeg gyda ffrindiau dros lwyfannau digidol? Beth am roi gwers i'ch rhieni? Rieni, dyma gyfle gwych i chi ddysgu mwy o Gymraeg – ewch amdani gyda'ch plant!

**ARHOLIADAU 2020:**
'Rwyf eisioes wedi ysgrifennu at rieni bl. 10, 11, 12 a 13eg (drwy neges destun gyda chyswllt i'n safwe) er mwyn eich hysbysu am y datblygiadau mwyaf diweddar ar gyfer gosod graddau arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch Haf 2020. Rydym yn aros am gadarnhad pellach ar gyfer graddio'r cyrsiau galwedigaethol y mae nifer o'n disgyblion ni yn eu hastudio – fe wnawn eich diweddaru ag unrhyw wybodaeth cyn gynted ag y cawn wybod. Yn sgîl y cyhoeddiadau yma, hoffwn bwysleisio ei bod yn allweddol bod ein disgyblion i gyd yn **parhau i weithio'n ddyfal** ar unrhyw dasgau gwaith cwrs, cyn bapurau a thasgau fydd yn hyrwyddo eu dysgu er mwyn eu cyflwyno i'r athrawon. Yn naturiol, bydd y gwaith yma yn ddefnyddiol tu hwnt i'r ysgol wrth i ni fynd ati i lunio asesiadau ysgol teg, wedi eu gosod ar waith cyflawn pob un o ddisgyblion Bryn Tawe.

**DYSGU O BELLTER:**
Mae'r sefyllfa bresennol yn sicr wedi ein gorfodi ni i gyd ddatblygu ein medrau digidol er mwyn gallu gweithio a dysgu o bellter. Mae'n wych gallu rhannu gyda chi bod 94% o'n disgyblion wed gwneud defnydd da iawn o SMHW wythnos ddiwethaf, yn ogystal â bron i 90% o'n rhieni a felly hyderaf fod digon o waith yn cyrraedd eich plentyn. Ardderchog! Ond

yr her nawr yw bwrw'r 100% - beth amdani bawb? Un pryder sydd wedi codi yw sut i ymdopi gyda rheoli amser yn unigol er mwyn cwblhau'r gwaith – rydym yn awgrymu i ddisgyblion **ddilyn eu hamserlen ddyddiol** fel modd o ddod i ben â'r tasgau cyfoethog amrywiol. Serch hyn, gwych o beth yw trafod gyda nifer o'r staff am y sgyrsiau digidol sydd wedi digwydd gyda'n disgyblion dros yr wythnos ddiwethaf!

Bydd rhagor o waith yn cyrraedd ar ddiwedd yr wythnos hon er mwyn rhoi ffocws i'r disgyblion dros wyliau'r Pasg. Bydd yr athrawon yn cymryd hoe o gyswllt dyddiol dros y cyfnod yma a bydd yn gyfle i'r disgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol ymhellach. Wrth gwrs, os oes anhawsterau gyda'r gwaith, danfonwch neges a fe fydd eich athrawon yn cysylltu 'nôl gyda chi pan fydd cyfle i wneud.

**CYSYLLTU GYDA RHIENI:**
Byddwn yn parhau i ddanfon negeseuon destun i'n rhieni gyda chyswllt i'r safwe er mwyn rhannu negeseuon pwysig – plîs gwiriwch ein safwe yn gyson am unrhyw ddiweddariadau. Dilynwch yr ysgol ar trydar: @bryntawe gan fod yna lu o wybodaeth yn cael ei rannu yma hefyd, yn ogystal â'r cyfrifon di-ri sydd gan adrannau a blynyddoedd gwahanol. Cofiwch hefyd ein bod ar agor bob dydd o'r wythnos, ar hyn o bryd, yn darparu gofal plant argyfwng, felly mae yna groeso i chi ein ffonio i drafod yn ôl yr angen.

**GOFAL PLANT ARGYFWNG:**
Yn gyntaf, diolch i'n rhieni am fod mor gall yn defnyddio'r gwasanaeth yma – gweler y cyngor gan Awdurdod Lleol Abertawe a Llywodraeth Cymru: https://bit.ly/GofalPlantArg. Os ydych am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda fy e-bost i DaviesS456@hwbcymru.net er mwyn trafod ymhellach.

Mae'r Awdurdod Lleol am i ni gynnig y ddarpariaeth ofal plant argyfwng dros benwythnosau, gan ddechrau ar benwythnos y 11eg a'r 12fed o Ebrill (penwythnos y Pasg). **Dim ond ar gyfer** gweithwyr critigol sydd yn **gweithio i'r gwasanaethau golau glas**, neu i **weithwyr gofal iechyd fydd y gwasanaeth yma** (rhiant sengl neu deulu ble mae'r ddau riant yn gweithio yn y ddau faes yma). Ni fydd y penwythnosau ar gael i bob categori o weithwyr critigol. Os ydych yn rhagweld y byddwch yn gorfod defnyddio'r gwasanaeth yma, llenwch yr atodiad ar ein gwefan a'i ddanfon yn ôl i fi ar e-bost erbyn ddydd Iau yr 2ail o Ebrill.

Yn olaf, ga i ymbil arnoch i ddilyn y cyngor diweddaraf gan y GIG (https://bit.ly/C-19GIG) a ICC (http://bit.ly/icc-coronavirus) i wrthsefyll feirws C-19 ar gyfer eich iechyd chi a'ch teuloedd – byddwch yn gyfrifol iawn yn y cyfnod digynsail a phryderus yma.

Cadwch yn ddiogel a chofion cynnes,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

31/03/20

Dear Parents / Guardians,

I hope everyone in your family is healthy given our current situation! It's a very worrying and uncertain time for us all, but can I assure you that we are available as a school to support our pupils, parents and the wider community in any way possible - please contact us if we can help in any way. In the meantime, I would like to share some messages with you.

**PUPIL WELL-BEING:**
The teachers are in weekly contact with all of our pupils via email or through our digital platforms - SMHW, Teams and Hwb classes. In many cases, this contact is more frequent and daily where needed. Please check out the wellbeing questionnaire that went out to pupils yesterday on SMHW. If your child feels they would like to discuss any matters with their tutor or 'caring adult' at school, please get in touch. Parents, you are also welcome to contact us if you have any concerns about your child's well-being! Please use the school email below, or my work email: DaviesS456@hwbcymru.net

**WELSHNESS:**
One challenge for us as a school community, without daily contact, is to maintain our pupils' use of the language on a daily basis. Miss Heledd Clarke shares a weekly challenge, as well as useful and interesting links on the school's 'Welshness' twitter account @BYDIBryntawe – please check to help maintain your child's Welshness. Why not encourage your child to have a face-to-face conversation in Welsh with friends over digital platforms? Why not ask for a lesson from your child? This is a great opportunity for you to learn more Welsh - go for it with your children!

**2020 EXAMINATIONS:**
I have already written to parents of pupils in years 10, 11, 12 and 13 (via text with a link to our website) to keep you informed of the latest developments for the summer 2020 GCSE, AS and A level examination grades. We are awaiting further confirmation for grading the vocational courses many of our pupils are studying - we will update you with any information as soon as we know. In light of these announcements, I would like to emphasize that it is vital that all our pupils continue to work diligently on any coursework tasks, past papers and tasks that will promote their learning in order to present them to their teachers. Naturally, this work will be extremely useful to the school as we work to produce a fair school assessment, based on the complete work of all our pupils at Bryn Tawe.

**DISTANCE LEARNING:**
The current situation has certainly forced us all to develop our digital skills to be able to work and learn from a distance. It's great to be able to share with you that 94% of our pupils made very good use of SMHW last week, as well as nearly 90% of our parents and so I trust that enough work is reaching your child. Excellent! But the challenge now is to hit the 100% - come on everyone! One concern that has arisen is how to individually manage our time to

complete the work - we suggest that pupils **follow their daily timetable** as a means of completing the various rich tasks. Nevertheless, it is great to discuss with many staff about the 'digital conversations' that have taken place with our pupils over the past week!

Further work will be arriving at the end of this week to give pupils a focus over the Easter holidays. The teachers will take a break from daily contact over this period and it will be an opportunity for the pupils to further develop their independent learning skills. Of course, if there are difficulties with the work, ask your child to send a message and the teachers will contact your child when there is an opportunity to do so.

**COMMUNICATING WITH PARENTS:**

We will continue to text our parents with a link to the website to share important messages - please check our website regularly for any updates. Follow the school on twitter: @bryntawe, as there is a lot of information being shared here, as well as the numerous accounts held by different departments and year groups. We are currently open every day of the week providing emergency childcare, you are therefore welcome to call us to discuss as necessary.

**EMERGENCY CHILDCARE:**

Firstly, thank you to our parents for your responsible use of this service - see the advice from Swansea Local Authority and the Welsh Government: https://bit.ly/WGEmergencyChildcare. If you require any further information, please contact me via email (DaviesS456@hwbcymru.net) to discuss. Further information will reach you shortly for the future expansion of this service.

The Local Authority has asked schools to offer emergency childcare provision over weekends, starting on the weekend of the 11th and 12th of April (Easter weekend). This service will **only** be for critical workers who work for the **blue light services**, or for **healthcare workers** (single parents or where both parents work in either of these sectors). The weekend provision will not be available to all categories of critical workers. If you anticipate having to use this service, please complete the attachment on our website and return to me via email by Thursday 2nd April.

Finally, can I once again please ask all of you to follow the latest advice issued in relation to Covid-19 by the NHS (https://bit.ly/C-19GIG) and Public Health Wales. Once again, thanks for all the support and we wish you and your family the very best during these difficult times. Please stay safe.

Best wishes,

Simon Davies

**CAIS AM OFAL PLANT ARGYFWNG DROS BENWYTHNOSAU**
**WEEKEND EMERGENCY HEALTHCARE REQUEST**

Enw'ch Plentyn / ***Child's Name:*** ___________________________________________

Blwyddyn / ***Year***: ______________________________________________________

Enw Rhiant / ***Parent's name***: _____________________________________________

Swydd Rhiant-Rhieni / ***Parent(s) Occupation***: _________________________________

_______________________________________________________________________

_______________________________________________________________________

Rhif ffôn cyswllt / ***Telephone contact number***: _________________________________

Cyfeiriad e-bost / ***E-mail address***: _________________________________________

Dyddiadau mae angen gwarchod plant argyfwng / ***Dates emergency childcare is required***:

_______________________________________________________________________

_______________________________________________________________________

_______________________________________________________________________

Os nad ydych yn ymwybodol o'r dyddiadau ar hyn o bryd, nodwch hynny uchod a fe wnewn ni gysylltu i drafod ymhellach.

***If you do not know the required dates currently, please note that above and we will contact you to discuss further.***

Bydd angen llenwi taflen gwybodaeth personol ar gyfer eich plentyn (os nad ydych wedi gwneud yn barod) – gweler yr atodiad ar ein safwe.

***You will also need to complete the personal details form for your child (if you have not completed already) – see the attachment on our website.***

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies